

Bro Morgannwg  
**Aesiad**  
**Dichonolrwydd**  
**CHWARAE**

Crynodeb Gweithredol



Mawrth 2019

This document is available in English.  
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

## Cynnwys...


- 1 Cefndir 1
- 2 Cwblhau'r asesiad 2
- 3 Beth wnaethon ni ddarganfod? 4
- 4 Y dyfodol 8

## Cefndir

Llywodraeth Cymru yw'r Llywodraeth gyntaf yn y Byd i greu deddfwriaeth chwarae plant – maent yn cydnabod bod gan blant hawl i allu chwarae ac felly maent wedi ymrwymo i wella cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc allu chwarae'n ddiogel. Mae Cyngor Bro Morgannwg hefyd yn cydnabod ac yn cefnogi'r hawl hwn.

Er mwyn arddangos eu hymrwymiad i yrru'r agenda hwn yn ei flaen, ym mis Tachwedd 2012 rhoddodd Llywodraeth Cymru ddyletswydd ar bob Awdurdod Lleol i asesu lefel y cyfleoedd chwarae yn eu hardal a chreu cynllun gweithredu cysylltiedig i wella'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael. Cafodd Asesiad Dichonolrwydd Chwarae Bro Morgannwg a'r cynllun gweithredu eu cwblhau gyntaf ym mis Mawrth 2013, gydag ail broses asesu'n cael ei chwblhau yn 2016. Mae'r Crynodeb Gweithredol hwn yn rhoi trosolwg o asesiad 2019.

Gellid cael y broses asesu lawn a'r cynllun gweithredu drwy gysylltu â [KJDavies@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:KJDavies@valeofglamorgan.gov.uk) neu dros y ffôn ar 01446 704793.





# Cwblhau'r asesiad

Er mai Cyngor Bro Morgannwg oedd yn arwain ar y broses Aseiad Dichonolrwydd Chwarae, cydnabuwyd o'r cam cyntaf bod datblygu a darparu cyfleoedd chwarae ym Mro Morgannwg yn gyfrifoldeb ar amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol.

Roedd mwy na 50 o unigolion o adrannau mewnol y Cyngor a sefydliadau allanol yn rhan o'r broses. Cynhaliwyd gweithdy Dichonolrwydd Chwarae y gwnaeth 23 o bobl o 15 adran wahanol yn y Cyngor a sefydliadau allanol ei fynychu. Roedd sefydliadau hefyd yn gallu cymryd rhan drwy gyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r meysydd eraill a nodwyd yn y ddogfen ADCh. O'i chymharu â'r prosesau asesu blaenorol, roedd graddfa'r ymateb oddeutu'r un peth ag aseiad 2016.

# Asesiad Dichonolrwydd Chwarae

Mae barn plant, pobl ifanc a phreswylwyr hefyd wedi'u hystyried gan ddefnyddio dulliau megis:

- arolwg ar-lein o'r enw 'Chwarae – Dweud eich Dweud' yn targedu plant a phobl ifanc. Cwblhaodd 304 o bobl yr arolwg hwn.
- ymgynghori mewn digwyddiadau gan gynnwys Dyddiau Hwyl i'r Teulu
- ymgynghori drwy gysylltiadau i'r Mynegai a grwpiau megis Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf, i sicrhau bod barn plant anabl a'u teuluoedd yn cael ei hystyried.
- gan gynnwys cwestiynau ar chwarae yn arolwg Barn ledled y Fro wnaeth dargedu plant a phobl ifanc. Cwblhaodd 1325 o bobl yr arolwg hwn.
- edrych ar ddata defnyddiol gan ffynonellau megis ymarferion Mapio Cymunedol sydd wedi'u cynnal gan y Tîm Cymunedau Gwledig Creadigol, ymarferion ymgynghori A106 a gwybodaeth o arolygon a gynhaliwyd gan Gyngorau Tref a Chymuned Lleol.

## Dangosodd yr arolwg 'Chwarae – Dweud eich Dweud' a gwblhawyd gan blant a phobl ifanc:

- y byddai **64%** yn disgrifio eu cyfleoedd i chwarae yn wych neu'n dda.
- bod **71%** yn mynd allan i chwarae neu gymdeithasu o leiaf rhywfaint o weithiau'r wythnos, ond nid yw 7% byth yn chwarae yn yr awyr agored.
- y byddai **32%** yn hoffi cael mwy o amser i chwarae neu gymdeithasu gyda ffrindiau.
- bod **21.5%** yn meddwl bod rhai neu'r rhan fwyaf o oedolion yn flin ac nad ydynt yn hoffi plant yn chwarae tu allan.
- bod **93%** bob amser neu fel arfer yn teimlo'n ddiogel wrth chwarae neu gymdeithasu.
- bod **14%** o'r farn nad yw'r lleoedd y maent yn chwarae ynddynt yn dda ac nad ydynt yn gallu gwneud popeth yr hoffent.
- bod plant a phobl ifanc yn chwarae mewn mwy na 30 o wahanol fathau o leoedd yn y Fro, sy'n dibynnu ar yr hyn sy'n lleol iddynt, lle gallant eu cyrraedd yn ddiogel a lle maent yn teimlo'n ddiogel i chwarae.
- Mae'r amgylchedd naturiol gwych yn y Fro yn helpu plant a theuluoedd sy'n manteisio ar gyfleoedd chwarae lleol.
- Er bod llawer o blant yn teimlo bod ganddynt fynediad i gyfleoedd chwarae da, mae hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar ble maent yn byw, p'un a ydynt yn cael chwarae yn y mannau y maent yn dymuno a pha fath o chwarae y maent yn ei hoffi.
- Ymhlith y pethau nad ydynt yn dda am chwarae yn y Fro mae:
  - nid yw offer chwarae'n addas ar gyfer bob oedran, yn benodol i blant hŷn a phobl ifanc
  - cyflwr offer chwarae sefydlog wedi dirywio
  - llawer o draffig
  - cael mynediad at gyfleoedd a mannau chwarae lleol mewn ardaloedd penodol
  - lleoedd i chwarae pan fo'n bwrw glaw
  - teimlo'n ddiogel yn chwarae allan gyda'r nos
  - mae rhai plant yn teimlo nad yw oedolion eisiau iddyn nhw chwarae yn y lleoedd y maen nhw'n chwarae.

**Roedd y canfyddiadau hyn yn debyg i'r rheiny a gafwyd o'r arolwg Barn a gwblhawyd gan blant a phobl ifanc**



# Beth wnaethon ni ddarganfod?

Er bod adnoddau ariannol yn brin, mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd o ran cynnig cyfleoedd chwarae digonol.

Yn rhan o'r broses asesu, roedd rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried nifer fawr o ddatganiadau mewn perthynas â chwarae a nodi a fyddent yn sgorio'r sefyllfa bresennol yn y Fro yn goch, ambr neu wyrdd (statws RAG) mewn perthynas â phob datganiad. Ar ôl dadansoddi statws RAG y 99 maen prawf, nodwyd bod 28 o'r meini prawf wedi'u hasesu'n wyrdd, 63 yn ambr ac 8 yn goch. Mae'r asesiad wedi dangos bod cynnydd mewn 14 o'r meini prawf. Aseswyd bod 75 o'r meini prawf wedi aros yn ddigyfnewid. Roedd 24 o'r rheiny a arhosodd yr un peth yn feini prawf oedd eisoes yn wyrdd o ran statws, oedd felly'n cynrychioli cyflawniad da yn erbyn nifer fawr o feini prawf. Mae statws 6 o'r meini prawf wedi gostwng.

# Asesiad Dichonolrwydd Chwarae

## Mae'r asesiad wedi dangos:

- Bu cynnydd mewn nifer o feysydd ers y ADCh blaenorol yn 2016 sy'n cael effaith positif ar ddarpariaeth cyfleoedd chwarae o safon ym Mro Morgannwg.
- Bu cynnydd mewn perthynas â gweithio partneriaeth drwy gronni mwy o adnoddau. Mae cyfathrebu gwell rhwng adrannau mewnol a chyda phartneriaid allanol, a mwy o ddyhead a dealltwriaeth o ran yr angen i gydweithio mwy. Fodd bynnag mae dal pocedi o ddatblygiadau'n cael eu cynnal ar eu pennau eu hunain yn fewnol yn y Cyngor, felly mae rhagor o gyfleoedd pellach ar gyfer cydweithio i fanteisio ar yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.
- Bu buddsoddiad ariannol i gynyddu mynediad at offer chwarae sefydlog ledled y Fro, gydag ardaloedd yn y Fro wledig hefyd yn elwa ar y cyllid. Lle bo'n bosibl, mae adnoddau'n cael eu sicrhau i barhau i wella cyfleoedd, ac mae hyn wedi bod yn benodol lwyddiannus o ran sicrhau cyllid A106 a chyllid Cymunedau Gwledig Creadigol i wella parciau, ardaloedd chwarae a manau agored mewn cymunedau lleol. Mae'r cymunedau dan sylw wedi croesawu hyn, fodd bynnag mae'r cymunedau nad ydynt wedi elwa ar y cyllid hwn hefyd wedi cyflwyno sylwadau negyddol, sydd o'r farn bod eu cymunedau nhw angen eu diweddarau hefyd.
- Mae rhagor o gyfleoedd i blant a phobl ifanc anabl i gael mynediad at gyfleoedd chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol drwy Glwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf a'r project Teenscheme.
- Yn yr un modd â'r asesiad blaenorol, mae'r asesiad hwn wedi amlygu bod angerdd cynyddol a dealltwriaeth am y manteision o chwarae ymysg nifer o bartneriaid mewnol ac allanol, sydd wedi ymrwymo i ddatblygu ymhellach gyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc. Mae'n hanfodol sicrhau ein bod ni'n defnyddio'r unigolion hyn fel hyrwyddwyr chwarae pan fôn nhw'n mynd i rwydweithiau a chyfarfodydd amrywiol.
- Mae ymwybyddiaeth gynyddol a diddordeb ymysg gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn y maes chwarae ynghylch yr effaith anuniongyrchol y maen nhw'n ei chael ar allu'r plentyn i chwarae. Er enghraifft, sut gall cynllunwyr helpu i sicrhau bod lle i chwarae mewn ardaloedd lle mae gwaith adeiladu newydd yn digwydd. Mae hyn, ynghyd â'r diddordeb ddeilliodd yn sgil y Gweithdy ADCh diweddar wedi arwain at ddiddordeb mewn ailystyried trefnu Grŵp Llywio Dichonolrwydd Chwarae fydd yn dod â phobl ynghyd o gefndiroedd gwahanol i drafod sut gellid datblygu mwy o gyfleoedd chwarae. Yn ogystal â hyn, bydd yr awdurdod lleol yn parhau â'r grwpiau tasg a gorffen llai fydd yn cael eu trefnu pan fo angen.
- Y maes sydd wedi gweld y newid mwyaf positif yw 'Mater G: Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae' lle mae saith o'r 11 datganiad meini prawf wedi symud yn eu blaen. Mae'r cynnydd hwn wedi dod ochr yn ochr â newidiadau cenedlaethol lle mae mwy o hyfforddiant ar gael megis L2App a MAHPS. Mae'r cyrsiau hyn wedi gwneud hyfforddiant gwaith chwarae'n fwy hygyrch ac yn ddeniadol i staff gwaith chwarae achlysurol sy'n gweithio ym Mro Morgannwg ac hefyd wedi galluogi unigolion gyda chymwysterau cysylltiedig i ychwanegu gwaith chwarae i'w portffolio cymwysterau, sydd felly'n cynyddu nifer y bobl all ddarparu chwarae.

- Lle bo cyfleoedd wedi codi i sicrhau cyllid chwarae ychwanegol, megis arian a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r cyllid hwn wedi'i groesawu a'i ddefnyddio'n briodol er mwyn cael effaith gadarnhaol ar chwarae. Fodd bynnag, oherwydd yr amserlen yr oedd y cyllid hwn ar gael ar ei chyfer ac yr oedd yn rhaid ei wario, ac oherwydd cyfyngiadau o ran sut roedd modd gwario'r cyllid, byddai rhai ardaloedd yn y Fro wedi hoffi defnyddio'r cyllid ond heb allu gwneud hynny. Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio ar gyfer meysydd megis:
  - prynu offer ac adnoddau i'w defnyddio mewn cynlluniau chwarae a digwyddiadau a ddarperir gan y Tîm Byw'n Iach a phartneriaid eraill gan gynnwys sefydliadau cymunedol. Mae hyn yn cynnwys prynu offer arbenigol er mwyn cynnwys plant anabl yn y ddarpariaeth chwarae.
  - prynu offer chwarae sefydlog mewn parciau a adnabuwyd drwy'r cynllun gwella ar gyfer ardaloedd chwarae sefydlog, gan gynnwys y rheiny yn y Fro wledig i gynorthwyo o ran goresgyn rhwystrau chwarae yn yr ardaloedd gwledig. Lle bo'n bosibl, cafodd offer cynhwysol ei brynu i gefnogi cynhwysiant plant anabl.
  - cefnogi'r costau o ddarparu digwyddiadau Ceidwaid Chwarae, Cynllun Chwarae a digwyddiadau Chwarae.
  - hyfforddiant i'r rheiny sydd ynghlwm wrth ddarparu chwarae, gan gynnwys hyfforddiant i sicrhau cynhwysiant plant anabl mewn cyfleoedd chwarae.
  - codi ymwybyddiaeth o fanteision chwarae a'r mathau gwahanol o chwarae sydd ar gael.
  - ehangu Cyfleoedd Chwarae Awyr Agored drwy brynu amrywiaeth o offer chwarae awyr agored ac Ysgolion Coedwig.
  - creu Taith Goed Ryngweithiol ym Mharc Romilly, Y Barri sy'n adnodd cyffrous fydd yn annog gweithgareddau awyr agored am flynyddoedd i ddod.
  - cynyddu darpariaeth chwarae a ddarperir drwy'r Gymraeg gan gefnogi Menter Bro Morgannwg i gyflawni rhagor o gynlluniau chwarae mynediad agored yn ystod gwyliau'r ysgol.
- Mae'r arolwg Chwarae – Dweud eich Dweud ar-lein wedi rhoi adborth defnyddiol gan y plant a'r bobl ifanc am eu profiad o gyfleoedd chwarae ym Mro Morgannwg a'u mynediad iddynt. Fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, dangosodd yr arolwg y byddai 64% yn sgorio eu cyfleoedd chwarae yn wych neu'n dda.
- Yn yr ADCh blaenorol, un o'r blaenoriaethau a nodwyd oedd canolbwyntio ar ddatblygu 'cymunedau chwarae' lle mae dealltwriaeth o'r angen i ehangu'r ardaloedd y mae pobl yn credu y gallai plant chwarae ynddynt a beth mae 'chwarae' yn ei olygu mewn gwirionedd. I rai pobl, mae diffiniad chwarae'n sefydlog iawn felly mae angen ehangu'r canfyddiadau hyn ac amlygu'r profiadau chwarae amrywiol sydd ar gael yn y Fro y mae modd cymryd rhan ynddynt am bris isel neu am ddim. Ers yr ADCh hwn bu rhagor o gynnydd o ran symud i ffwrdd o'r dybiaeth bod angen offer chwarae sefydlog / ardal chwarae i fod yn agos i bob plentyn fel y gallant brofi chwarae o safon. Amlygodd yr arolwg chwarae bod amgylchedd naturiol da yn y Fro yn cael ei werthfawrogi, megis mannau agored, coetiroedd, traethau, sy'n galluogi plant i gael profiad o chwarae yn yr ystyr ehangaf. Fodd bynnag, bydd yn parhau'n flaenoriaeth i hyrwyddo argaeledd chwarae am ddim yn y Fro.



# Asesiad Dichonolrwydd Chwarae

- Mae dyhead i gynyddu cyfleoedd, fodd bynnag golyga diffyg adnoddau mai dim ond hyn a hyn o bobl sydd ar gael i ddatblygu'r maes hwn o waith. Mae adnabod cyllid hirdymor yn dal i fod yn broblem i bartneriaid mewnol ac allanol gyda chyllid cyfyngedig ar gael i ddatblygu cyfleoedd chwarae yn y Fro. Mae hyn yn effeithio ar ddarpariaeth y rhaglen ac hefyd ar ddatblygu seilwaith staffio. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd cynllunio strategol ac yn bwyta amser.
- Roedd y meini prawf oedd wedi gostwng yn bennaf oherwydd diffyg adnoddau. Ymhlith y meysydd sydd wedi gostwng mae gwaith cefndirol ynghylch cynllunio megis asesiadau manau agored, astudiaeth Mannau Gwyrdd Hygyrch, ac asesu safleoedd tir llwyd ar gyfer chwarae. Mae hefyd angen diweddarau'r tudalennau perthnasol ar y wefan gyda gwybodaeth eglur am bob parc a man chwarae yn y Fro, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch hygyrchedd y lleoedd hyn.





## Y dyfodol

Mae Cyngor Bro Morgannwg a'i bartneriaid yn dal i fod wedi ymrwmo i gynnig cyfleoedd chwarae ac mae'r ymrwymiad hwn wedi'i arddangos drwy gynnwys chwarae yn y cynllun corfforaethol. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn cydnabod manteision chwarae drwy gynnwys chwarae yn eu Cynllun Llesiant.

Yn yr un modd ag Asesiadau Dichonolrwydd Chwarae 2013 a 2016, oherwydd cyfyngiadau ariannol, bydd cyllidebau cyfyngedig ar gael i'r Cyngor i'w dyrannu ar gyfer chwarae i'r dyfodol. Fodd bynnag, bydd y cydweithio cadarnhaol rhwng partneriaid yn parhau a gobeithir y bydd hyn yn parhau i sicrhau bod adnoddau ar gael i yrru'r camau a nodir yn y cynllun gweithredu sydd wedi'i greu yn rhan o'r broses Asesiad Dichonolrwydd Chwarae.

# Asesiad Dichonolrwydd Chwarae

Mae llawer o'r camau a nodwyd yn y cynllun yn gamau cost isel neu gamau y mae modd eu gweithredu heb gostau ychwanegol gan ddefnyddio adnoddau presennol. Amlygodd canfyddiadau'r arolwg chwarae a gynhaliwyd gyda phlant, yn ogystal â'r trafodaethau a gynhaliwyd yn y Gweithdy ADCh, rwystrau o ran cyfranogiad, a chamau posibl sydd wedi'u hystyried a'u cynnwys lle bo'n briodol. Yn yr un modd â chynlluniau gweithredu ADCh blaenorol, bwriedir y bydd y ddogfen hon yn ddogfen fyw fydd yn cael ei hadolygu a'i diwygio lle bo'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfuno eu ffrydiau cyllid perthnasol i greu Grant Plant a Chymunedau. Mae hyn wedi dod â chyfleoedd cadarnhaol o ran chwarae ac wedi rhoi cyfle i ymgeisio am gyllid i benodi aelod staff ychwanegol i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu rhagor o gyfleoedd chwarae yn y Fro. Os yw'r bid cyllid yn llwyddiannus, bydd yr aelod staff hwn yn ceisio cynyddu cyfleoedd o fewn projectau penodol ac i'r rheiny sydd â mynediad cyfyngedig ar hyn o bryd.

## **Gellir dod o hyd i'r cynllun gweithredu llawn yn y ddogfen ADCh lawn.**

Dyma drosolwg o'r meysydd â blaenoriaeth yn y cynllun gweithredu:

- Cynyddu nifer y cyfleoedd chwarae, a mynediad atynt, mewn ardaloedd penodol yn yr ardaloedd gwledig.
- Cynyddu mynediad at gyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc anabl.
- Cynyddu cyfleoedd i blant gael mynediad at chwarae yn y Gymraeg.
- Cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch y cyfleoedd chwarae presennol sydd ar gael yn y Fro a sut gall plant, pobl ifanc a theuluoedd ddefnyddio'r amgylchedd naturiol i gael mynediad at chwarae pris isel / dim cost.
- Cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch buddion chwarae a hawl plentyn i chwarae yn y gymuned.
- Ymchwilio i ffyrdd o gefnogi plant i allu teithio'n ddiogel i fannau chwarae a defnyddio dulliau hwylus ac actif i wneud hynny. Mae dealltwriaeth well o'r effaith y mae traffig a llwybrau diogel at fannau chwarae yn ei chael ar allu plant i gael mynediad at gyfleoedd chwarae.
- Datblygu'r seilwaith Chwarae yn yr Awdurdod Lleol, cynyddu capasiti yn y Tîm Byw'n lach i alluogi rhagor o ddatblygu strategol, ynghyd â rhagor o gyfleoedd chwarae.
- Datblygu project Cenhadon Chwarae Cymunedol i gefnogi pobl ifanc i ddod yn 'genhadon chwarae' drwy gyfleoedd hyfforddiant, cymwysterau a gwirfoddoli gyda'r nod o sicrhau bod plant yn actif drwy chwarae. *(Mae'r cam hwn yn dibynnu ar fid cyllid llwyddiannus).*

Bro Morgannwg  
**Aseiad  
Dichonolrwydd  
CHWARAE**  
Crynodeb Gweithredol

